PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Dyfarnwyd yn ail yn y DU am Ymchwil gan 'Research Power', sef tabl cynghrair Research Fortnight

Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth — Dewch i brofi'r gorau

Mae'r Adran yn cynnig graddau:
Drama ac Astudiaethau Theatr
Astudiaethau Ffilm a Theledu
Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
Y Cyfryngau a Chyfathrebu



http://www.aber.ac.uk/

Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu — Dewch i brofi'r gorau

Y profiad a'r lleoliad gorau...

Myfyrwyr Aberystwyth yw myfyrwyr hapusaf Cymru! Nid ni sy'n dweud hynny, ond *Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr* a'r *Times Good University Guide 2009*. Aberystwyth hefyd yw'r dref orau ym Mhrydain i fyfyrwyr o safbwynt cymuned ac adnoddau, yn ôl arolwg gan *accommodationforstudents.com*. Saif Adeilad Parry-Williams ar gampws Penglais, sy'n edrych dros fae godidog Ceredigion. Mae i Aber hunaniaeth Gymreig gref, yn ogystal â llu o ddylanwadau cosmopolitan byd eang.

Yr adnoddau gorau...

Mae gennym adnoddau a chyfarpar rhagorol, sy'n cynnwys:

- Canolfan cyfryngau digidol newydd sbon ar gyfer gwaith cynhyrchu a golygu digidol
- Tri gofod theatr stiwdio, sy'n dal 100 o bobl ac sy'n cynnwys grid 'trampoline' a chyfleusterau theatr llawn
- Tair stiwdio ymarfer gyda lloriau sbonc ac adnoddau technegol hyblyg
- Stiwdio newydd sbon yn arbennig ar gyfer ymchwil i berfformio a chynhyrchu theatr arbrofol
- Stiwdio deledu, a dwy stiwdio amlbwrpas ar gyfer gwaith cynhyrchu theatr ffilm a theledu
- 36 gorsaf golygu digidol a HD, dros 40 o gamerâu digidol a HD, cymysgydd lluniau digidol ac adnoddau galeri newydd
- Stiwdio sain ddigidol gyda chyfarpar recordio a golygu digidol blaengar
- Mynediad i Ganolfan Adnoddau'r Ganolfan Ymchwil i Berfformio, casgliad unigryw o lyfrau a deunydd gweledol ar theatr a pherfformio ledled y byd
- Ystafelloedd darlithio â chyfarpar taflunio ffilm
- Tafliad carreg oddi wrth Lyfrgell Genedlaethol Cymru, ac Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru
- Lleolir yr Adran drws nesaf i Ganolfan Celfyddydau Aberystwyth, un o ganolfannau celfyddydol mwyaf y DU.

Yr addysg orau…

O'r flwyddyn gyntaf ymlaen fe gewch eich cyflwyno i ddulliau cyflenwol o ddysgu ac addysgu. Mae'r rhain yn amrywio o ddarlithoedd ffurfiol i arddangosiadau technegol, o weithdai ysgrifennu i waith prosiect a ddyfeisir mewn grwpiau. Mae amrywiaeth y gweithgaredd yn rhan hanfodol o athroniaeth yr Adran, ac mae'n creu amgylchedd dysgu cynhyrchiol ac unigryw o gyffrous.

Nodwedd neilltuol ein cyrsiau yw'r ffordd y mae gwaith ymarferol ac ysgolheigaidd yn cydblethu â'i gilydd, a'r ffordd y mae un dull astudio yn sbarduno a chyfoethogi'r llall i greu profiad addysgol cadarn ac adeiladol. Mae'n gyfuniad sy'n rhoi cyfle o bob math i ddatblygu agwedd ddeinamig tuag at eich pwnc, ac i fynegi eich dirnadaeth ohono mewn ffyrdd corfforol, deallusol ac arbrofol. Dysgir nifer o'n modiwlau ar y cyd â gweithwyr proffesiynol yn y maes. Fel myfyrwyr mae gennych gyfle hefyd i wneud cais i gymryd rhan yng nghynlluniau'r Brifysgol i astudio dramor neu i gymryd blwyddyn mewn gwaith.

Bywyd prysur iawn yw bywyd myfyrwyr yr Adran. Bydd astudio yma yn rhoi digon o brofiad ichi o gyfuno gwaith creadigol a gwaith beirniadol academaidd. Cewch eich asesu trwy gyfrwng prosiectau grŵp, cyflwyniadau seminar, prosiectau ymchwil a llyfrau nodiadau creadigol, ysgrifennu sgriptiau, byrddau stori a datblygu syniadau, yn ogystal â thraethodau ffurfiol, arholiadau a gwaith ar gynhyrchiadau. Gellir gwneud hyn oll dryw gyfrwng y Gymraeg. Erbyn diwedd y cwrs gradd byddwch wedi cynhyrchu portffolio gwaith a fydd yn ddarlun o'ch sgiliau ymchwil a chreadigol ar gyfer darpar gyflogwyr posibl.

Y cyfleoedd gorau…

Mae'r Adran yn falch iawn o'i pherthynas weithgar â phartneriaid allweddol, megis y BBC, S4C, Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig. Mae gennym berthynas glòs hefyd â Theatr Genedlaethol Cymru a Sherman Cymru. Ers 2006 cydnabyddir yr Adran fel Academi AVID, ac rydym yn rhan o gonsortiwm sy'n ymgeisio am achrediad Skillset fel canolfan o ragoriaeth ym maes cynhyrchu cyfryngol. Rydym yn rhoi cartref i stiwdio ranbarthol y BBC, ac yn ddiweddar datblygwyd partneriaeth strategol â chwmni Boomerang +, sydd wedi arwain at sefydlu swyddfa i'r cwmni yn yr Adran ac sy'n hwyluso'r elfen o brofiad gwaith i fyfyrwyr.

Ac i'r dyfodol?

Y mae nifer sylweddol o gyn-fyfyrwyr yn gweithio'n awr ym meysydd theatr, ffilm, teledu a radio, rhai ohonynt ar lefel uchel iawn. Yn yr un modd, aeth nifer fawr o fyfyrwyr ymlaen i waith proffesiynol yn y byd addysg ac i astudio ar lefel uwch. Mae mwy a mwy ohonynt yn datblygu'n entreprenwriaid creadigol, ac wedi sefydlu cwmnïau deillio yn gysylltiedig â'r Brifysgol ac yn cyfrannu at ddatblygiad y diwydiannau creadigol a diwylliannol yng Nghymru a'r DU. Trwy ein trefn gofal bugeiliol rydym yn ymrwymo i roi ichi olwg heriol a gwybodus am ddatblygiad eich gyrfa ac i'ch annog i sylweddoli amrywiaeth y sgiliau y gallwch eu cyflwyno i gyflogwyr posibl. Mae'r Adran yn ceisio sicrhau eich bod yn meithrin llawer o sgiliau defnyddiol, rhyngbersonol sy'n hanfodol yn y farchnad waith gyfnewidiol sydd ohoni. Aiff llawer o'n myfyrwyr ymlaen i ddilyn gyrfa ym maes cysylltiadau cyhoeddus, personél, rheolaeth, TG, gwaith cymunedol ac i weithio ar eu liwt eu hunain.



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Kate Woodward,
Cydgysylltydd Mynediad
01970 622828
klw@aber.ac.uk
http://theatrffilmteledu.wordpress.com
http://www.aber.ac.uk